

Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Hard-working Families Teuluoedd sy'n Gweithio'n Galed

Q11 Irene James: How is the Welsh Assembly Government working with the UK Government to deliver for hard-working families in Wales? OAQ0372(FM)

C11 Irene James: Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i wella byd teuluoedd sy'n gweithio'n galed yng Nghymru? OAQ0372(FM)

The First Minister (Rhodri Morgan): Our initiatives for children and families, such as Cymorth, childcare, free school breakfasts, early years education and free swimming and free prescriptions, complement the UK Government's family-friendly policies on tax, benefits and parental leave, thereby enabling a major reduction in child poverty to be achieved.

Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan): Mae ein mentrau ar gyfer plant a theuluoedd, megis Cymorth, gofal plant, brecwast am ddim mewn ysgolion, addysg y blynyddoedd cynnar, nofio am ddim a phresgripsiynau am ddim, yn ategu polisiau Llywodraeth y DU sy'n ystyriol o deuluoedd, ym meysydd trethi, budd-daliadau a chyfnodau mamolaeth a thadolaeth. Mae'r rhain oll yn cyfrannu'n sylweddol tuag at leihau tlodi ymysg plant.

The Lives of Older People Bywydau Pobl Hŷn

Q12 Denise Idris Jones: Will the Minister make a statement about policies to improve the lives of older people in Conwy? OAQ0371(FM)

C12 Denise Idris Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisiau i wella bywydau pobl hŷn yng Nghonwy? OAQ0371(FM)

The First Minister: There are a number of such policies operating in the Conwy area as part of our landmark strategy for older people in Wales. These include our 60-plus free swimming, the Keep Warm this Winter campaign, free bus travel, Care and Repair Cymru, and the health, social care and wellbeing strategies.

Y Prif Weinidog: Mae nifer o bolisiau o'r fath yn cael eu gweithredu yng Nghonwy fel rhan o'n strategaeth bwysig ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys ein cynllun nofio am ddim i bobl dros 60 oed, ymgyrch Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn, teithiau bws am ddim, Gofal a Thrsio Cymru, a'r strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles.

The Provision of Primary School Education in Rural Areas Darparu Addysg Gynradd mewn Ardaloedd Gwledig

Q13 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on the provision of primary school education in rural areas? OAQ0349(FM)

The First Minister: Our vision for primary schools in all areas is that they should provide accessible education of a high standard in buildings suitable for the delivery of the national curriculum in the twenty-first century. It is for local education authorities to make provision to meet these aspirations as effectively as possible.

C13 Janet Ryder: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddarparu addysg gynradd mewn ardaloedd gwledig? OAQ0349(FM)

Y Prif Weinidog: Ein gweledigaeth ar gyfer ysgolion cynradd ym mhob ardal yw y dylent ddarparu addysg hygyrch o safon dda mewn adeiladau sy'n addas ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm yn yr unfed ganrif ar hugain. Mater i'r awdurdodau addysg lleol yw gwneud darpariaeth sy'n cwrdd â'r dyheadau hyn yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl.

Nurse Staffing Levels Lefelau Staffio Nyrsys

Q14 David Lloyd: Will the Minister make a statement on nurse staffing levels? OAQ0351(FM)

The First Minister: The latest figures available to the Welsh Assembly Government show that at 30 September 2004, the total number of qualified nurses directly employed by NHS Wales was 20,126 whole time equivalents, and 28,512 on headcount. This is an increase of 3,387 whole time equivalents, or 20 per cent, and 7,324 on headcount, or 34.6 per cent, since 30 September 1997.

C14 David Lloyd: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar lefelau staffio nyrsys? OAQ0351(FM)

Y Prif Weinidog: Yn ôl y ffigurau diweddaraf sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yr oedd nifer y nyrsys cymwysedig a oedd yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan GIG Cymru ar 30 Medi 2004 yn 20,126 gyfwerth ag amser llawn, gyda chyfanswm o 28,512. Mae hyn yn gynydd o 3,387, neu 20 y cant, yn y nifer gyfwerth ag amser llawn, a 7,324, neu 34.6 y cant, yn y cyfanswm, o'i gymharu â 30 Medi 1997.

The Government's Primary Legislation Bids Cynigion Deddfwriaeth Sylfaenol y Llywodraeth

Q15 Jocelyn Davies: Will the Minister make a statement on the Government's primary legislation bids? OAQ0347(FM)

The First Minister: I wrote to the Secretary of State following our Plenary debate in March, sending a copy of the Cabinet's proposals. I am delighted that the Public Services Ombudsman (Wales) Bill has now become law.

C15 Jocelyn Davies: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynigion deddfwriaeth sylfaenol y Llywodraeth? OAQ0347(FM)

Y Prif Weinidog: Ysgrifennais at yr Ysgrifennydd Gwladol yn dilyn ein dadl yn y Cyfarfod Llawn ym mis Mawrth, gan anfon copi o gynigion y Cabinet ato. Yr wyf wrth fy modd bod Mesur Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) bellach wedi dod yn gyfraith.